CANLLAW
CYNLLUNIO ATODOL

LLECYNNAU AGORED MEWN DATBLYGIADAU TAI NEWYDD

Mawrth 2019

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD

Cynnwys

Cynnwys 2
1.0 Cyflwyniad a Phwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol 3
1.1 Pwrpas 3
1.2 Cyflwyniad 4
2.0 Cyd-destun Polisi Cynllunio 5
2.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol 5
2.2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 5
3.0 Cam 1: Gosod Safonau 7
3.1 Safonau Meincnod *Fields in Trust* (FiT) 7
3.2 Categorïau Llecynnau Agored 7
3.3 Hygyrchedd Llecynnau Agored 8
3.4 Eithriadau 8
3.5 Cyfraniad Ariannol 8
4.0 Cam 2: Asesiad o'r Ddarpariaeth Llecynnau Agored Presennol 9
4.1 A) Asesiad Llecynnau Agored (ALlA) 9
4.2 B) Amcangyfrif o'r Boblogaeth Breswyl 11
5.0 Cam 3: Pennu Gofyniad Llecynnau Agored y Datblygiad Newydd Arfaethedig 12
5.1 A) Rhagdybiaethau Meddiannaeth 12
5.2 B) Anghenion Hamdden 12
6.0 Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau 14
Atodiad 1 – Dadansoddiad o’r Costau 15
Atodiad 2 – Mapiau Asesiad Llecynnau Agored 16
Atodiad 3 – Amcangyfrif o'r boblogaeth 56

1.0 Cyflwyniad a Phwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol

1.1 Pwrpas

1.1.1 Pwrpas y Canllawiau hyn yw:

- Cynorthwyo ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

1.1.2 Y nod gyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau.

Y Cyd-destun Polisi

Y Cynllun Datblygu Lleol

1.1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisïau cynllunio ar gyfer pob ardal wedi'u cynnwys yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn.

1.1.4 Mae'r Cynllun yn darparu polisïau amrywiol ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu; bydd yn cynorthwyo i siapio dyfodol ardal y Cynllun yn ffisegol ac yn amgylcheddol, a bydd hefyd yn dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Felly, mae'r Cynllun yn:

- galluogi i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisi cenedlaethol; ac
- arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

1.1.5 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all ddarparu'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar-ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n darparu amrediad o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun fydd yn darparu canllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Polisi.

Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol

1.1.6 Efallai yr ystyrir Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwys sylweddol ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisïau cynllunio newydd ac ni allant newid polisïau'r Cynllun.

1.1.7 Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, mae'r CCA wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a phenderfyniad i fabwysiadu gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ran y Cynghorau. Cymeradwywyd fersiwn drafft o'r CCA hwn am ymgynghoriad

cyhoeddus ar *dyddiad* gan *enw'r Pwyllgor*. Bu'r canllaw cynllunio atodol hwn yn destun ymarferiad ymgynghoriad cyhoeddus rhwng *dyddiad*. Ystyriwyd y sylwadau a gyflwynwyd i'r Cynghorau a, ble bo'n briodol, mae newidiadau priodol wedi'u cynnwys yn y drafft terfynol a gymeradwywyd gan y *Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd* ar *dyddiad* i'w ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu a gwneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio ac apeliadau. Ceir crynodeb o'r sylwadau ac ymateb y Cynghorau yn *Atodiad neu lleoliad yr adroddiad Pwyllgor.*

(*Ar ôl ei fabwysiadu) Felly, o* ganlyniad, dylid rhoi pwys sylweddol i'r ddogfen hon fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

1.2 Cyflwyniad

1.2.1 Diben y Canllaw hwn yw sefydlu’r mecanweithiau cynllunio perthnasol fydd yn hwyluso'r dasg o ddarparu a chynnal lefel briodol o lecynnau agored o werth adloniadol (OSRV) mewn perthynas â datblygiadau tai newydd sy'n cynnwys deg neu fwy o unedau preswyl yn ardal y Cynllun. Pennir y trothwy hwn ym Mholisi ISA 5: Darpariaeth llecynnau agored mewn datblygiadau tai newydd.

Mae'r siart llif isod yn dangos y camau allweddol wrth benderfynu ar yr angen am a’r nifer o lecynnau agored mewn datblygiadau tai newydd:

Cam 1:
Gosod Safonau
(adran 3.0)

↓

Cam 2:
Asesiad o Ddarpariaeth Llecynnau Agored Presennol i Ganfod unrhyw Ddiffyg
(adran 4.0)

↓

Cam 3:
Penderfynu ar Ofynion Llecyn Agored y Datblygiad Newydd Arfaethedig
(adran 5.0)

2.0 Cyd-destun Polisi Cynllunio

2.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

2.1.1 Mae canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol ar chwaraeon a hamdden wedi'u nodi ym Mhennod 11 Polisi Cynllunio Cymru (PCC, Rhifyn 10, Rhagfyr 2018) ac yn cydnabod cyfraniad mannau hamdden ar ansawdd ein bywydau (4.5.1).

2.1.2 Mae PCC yn cydnabod y dylai mannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys parciau sy'n hynod werthfawr o ran hamdden neu amwynder, gael eu diogelu rhag cael eu datblygu. Mae hynny'n arbennig o berthnasol mewn ardaloedd trefol, lle mae mannau o'r fath yn cyflawni sawl diben. Nid yn unig y maent yn cyfoethogi ansawdd bywyd, ond maent hefyd yn cyfrannu at fioamrywiaeth, cadwraeth natur a thirwedd, ansawdd yr aer ac maent yn diogelu dŵr daear ac fel llefydd o dawelwch (4.5.3).

2.1.3 Mae canllawiau pellach wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009), sy'n rhoi cyngor ar baratoi Asesiadau Llecynnau Agored, diogelu cyfleusterau presennol, darparu cyfleusterau newydd a chynllunio rhandiroedd a llecynnau chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc.

2.2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

2.2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) Ynys Môn a Gwynedd ar 31 Gorffennaf 2017 ac mae'n darparu fframwaith polisi cynllunio ar gyfer y CCA hwn. Mae swyddogaeth bwysig llecynnau agored o fewn cymunedau yn ardal y Cynllun wedi'i adlewyrchu yn y CDLl ar y Cyd sy'n ceisio diogelu'r llecynnau agored presennol ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu llecynnau agored i ddiwallu anghenion deiliaid datblygiadau tai newydd.

2.2.2 Mae Polisi ISA 5: Darparu Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd yn datgan:

> Disgwylir i gynigion tai newydd ar gyfer 10 neu fwy o dai, mewn ardaloedd ble na all llecynnau agored presennol fodloni anghenion y datblygiad tai arfaethedig, roi darpariaeth addas o fannau agored yn unol â safonau meincnod *Fields in Trust* o 2.4 hectar fesul pob 1,000 o'r boblogaeth.
>
> Mewn amgylchiadau eithriadol, ble nad oes modd darparu llecynnau chwarae awyr agored yn rhan annatod o ddatblygiad tai newydd, bydd yn ofynnol i'r datblygwr:
>
> 1. Cynnig darpariaeth addas oddi ar y safle sy'n agos at y datblygiad ac yn hygyrch o ran cerdded a beicio, neu, ble nad yw hyn yn hyfyw/ymarferol
> 2. Cyfrannu'n ariannol tuag at gyfleusterau newydd gan gynnwys offer, gwella cyfleusterau presennol ar safleoedd hygyrch, neu wella hygyrchedd i fannau agored presennol.
>
> Bydd cyfraniadau datblygwyr yn destun cytundeb cyfreithiol yn unol â Pholisi ISA 1.

2.2.3 Ni fydd y polisi hwn yn cael ei lacio oni bai y gellir dangos bod darpariaeth ddigonol o fannau agored a llecynnau chwarae awyr agored addas yn unol â safonau meincnod '*Fields in Trust*'.

2.2.4 Bwriad Maen Prawf (3) Polisi PCYFF 2 yw sicrhau bod cynigion yn dangos eu bod yn gwneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys dwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar

o ran datblygiadau preswyl (oni bai bod yna amgylchiadau lleol neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is).

2.2.5 O ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yn gofyn am gyfiawnhad gan yr ymgeisydd ar gyfer cynigion sydd â dwysedd is, i sicrhau nad yw ceisiadau yn ceisio osgoi'r lefel trothwy o 10 neu ragor o anheddau ar gyfer darparu llecynnau agored, mewn achosion lle bo angen am ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal.

3.0 Cam 1: Gosod Safonau

At ddiben y CDLl ar y Cyd, mae safon y Cynghorau yn adlewyrchu safonau meincnod *'Fields in Trust'* a NCT16 (2009).

3.1 Safonau Meincnod *Fields in Trust* (FiT)

3.1.1 Mae *Fields in Trust* (FiT), sef y *National Playing Fields Association* gynt, wedi paratoi safonau meincnod i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu a diogelu mannau ar gyfer chwaraeon, hamdden a chwarae. Mae'r safon meincnod a gynigir gan FiT yn cynnwys lleiafswm o **2.4 hectar am bob 1000 o'r boblogaeth,** a rennir fel a ganlyn:

- **1.6ha o gyfleusterau chwaraeon awyr agored**
  - 1.2ha o leiniau chwarae neu 12m^2 fesul person
  - 0.4ha o chwaraeon awyr agored neu 4m^2 fesul person
- **0.8ha o fannau chwarae i blant**
  - 0.25ha o fannau chwarae â chyfarpar neu 2.5m^2 fesul person
  - 0.55ha o fannau chwarae anffurfiol neu 5.5m^2 fesul person

3.2 Categorïau Llecynnau Agored

3.2.1 <u>Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored</u>

Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfleusterau fel meysydd, lawntiau, cyrtiau, traciau athletau ac amryfal safleoedd fel lonydd croce a mannau hyfforddi ym mherchnogaeth llywodraeth leol, ar bob haen.
- Cyfleusterau fel a ddisgrifiwyd uchod yn y sector addysgol sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio drwy gytundeb ysgrifenedig. Nid yw defnydd anffurfiol neu diawdurdod o gyfleusterau o'r fath gan y cyhoedd yn gymwys.
- Cyfleusterau fel a ddisgrifiwyd uchod yn y sectorau gwirfoddol, preifat, masnachol sy'n gwasanaethu anghenion hamdden i chwaraeon awyr agored ac adloniant eu haelodau, neu'r cyhoedd.

Argymhella FiT y dylai caeau chwarae fod ar gael o fewn 1.2km i'r holl anheddau mewn ardaloedd preswyl.

3.2.2 <u>Llecynnau Chwarae i Blant</u>

Mae hyn yn cynnwys:

- Llecynnau penodol i blant sy'n cynnwys ystod o gyfleusterau ac amgylchedd a ddyluniwyd i ddarparu cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar chwarae yn yr awyr agored
- Llecynnau chwarae dros dro neu anffurfiol mewn ardaloedd tai sy'n rhoi cyfle i chwarae anffurfiol.

Mae FiT yn diffinio tri chategori o fannau chwarae i blant, sef:

1. Lle Lleol i Chwarae (LAP): Llecyn bach agored heb oruchwyliaeth wedi ei bennu yn benodol i blant ifanc chwarae yn agos at ble maent yn byw.
2. Llecyn Lleol gyda Chyfarpar (LEAP): Llecyn chwarae heb oruchwyliaeth gyda chyfarpar i blant oedran cynnar ysgol.
3. Llecynnau Cymdogaeth gyda Chyfarpar Chwarae (NEAP): Safle heb oruchwyliaeth yn gwasanaethu ardal breswyl sylweddol, gyda chyfarpar yn bennaf i blant hŷn i chwarae ar eu pennau eu hunain rhwng 8 ac 14, ond gyda chyfleoedd chwarae i blant iau, plant hŷn a rhai gydag anghenion arbennig.

3.3 Hygyrchedd Llecynnau Agored

3.3.1 Mae’r safonau FiT yn cynnwys hygyrchedd chwaraeon awyr agored sydd fel a ganlyn:

- Taith 20 munud o lawnt fowlio a chwrt tennis awyr agored
- Taith 45 munud o drac athletau synthetig
- 1.2km o faes chwaraeon (dros 0.4ha ac wedi’i farcio ar gyfer gemau)

3.3.2 Mae'r safonau hygyrchedd i fannau chwarae plant fel a ganlyn:

Math o Le	Meini Prawf Pellter (m)	
	Pellter Cerdded	Pellter Llinell Syth
LAP	100	60
LEAP	400	240
NEAP	1000	600

3.4 Eithriadau

3.4.1 Ni cheisir cyfraniad tuag at fannau chwarae plant gan anheddau un ystafell wely, llety myfyrwyr, tai gwarchod a thai i'r henoed, cyfleusterau gofal ychwanegol a mathau eraill o ddatblygiadau arbenigol lle na fydd plant 0-14 oed fel arfer yn byw ynddynt. Nid yw Cyfrifiad 2011 yn nodi bod plant yn byw mewn eiddo un ystafell wely.

3.4.2 Yn yr un modd, ni cheisir cyfraniad tuag at wella a datblygu caeau chwarae a chyfleusterau hamdden gan gyfleusterau tai gwarchod a chyfleusterau gofal ychwanegol, gan ei bod yn annhebygol y byddai preswylwyr y datblygiadau hyn yn defnyddio caeau chwarae. Bydd dal angen ystyried a yw'r datblygiad yn esgor ar yr angen i gyfrannu at fannau amwynder agored ar gyfer y gymdogaeth.

3.5 Cyfraniad Ariannol

3.5.1 Mae Polisi ISA 5 yn cydnabod na fydd darpariaeth ar y safle yn ymarferol ym mhob achos. **Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu cyfiawnhad cadarn i brofi nad yw'n bosib darparu llecynnau chwarae awyr agored fel rhan annatod o ddatblygiad tai newydd**. Yn yr achosion hyn, bydd yr Awdurdod yn ceisio trefnu rhwymedigaeth gynllunio o dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae rhwymedigaeth gynllunio yn galluogi i ddatblygwyr wneud cyfraniad tuag at fannau chwarae addas oddi ar y safle yn lle darpariaeth uniongyrchol o fewn y safle datblygu. Rhaid i’r mannau hyn fod wedi’u hadnabod fel rhai addas ar gyfer darparu llecynnau chwarae newydd, a rhaid diwallu’r profion perthnasol sy'n ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio. Mae Canllaw Cynllunio Atodol: Rhwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth a chyngor am rwymedigaethau cynllunio.

3.5.2 Cyfrifir lefel y cyfraniad ariannol drwy ddefnyddio amcangyfrif o nifer y preswylwyr a'r costau cyfredol fesul metr sgwâr o ddarparu'r llecynnau chwarae awyr agored sy'n ofynnol. Mae'r costau yn seiliedig ar y gost o ddarparu'r cyfleusterau newydd a'r gwaith cysylltiedig.

3.5.3 Mae manylion y costau i'w gweld yn Atodiad 1.

4.0 Cam 2: Asesiad o'r Ddarpariaeth Llecynnau Agored Presennol

Mae paragraff 6.1.28 CDLl ar y Cyd yn datgan na fydd Polisi ISA5 yn cael ei lacio oni bai y gellir dangos bod darpariaeth ddigonol o fannau agored a llecynnau chwarae awyr agored addas ar gael. Felly, bydd angen asesiad o'r llecynnau agored presennol er mwyn penderfynu a oes darpariaeth ddigonol ai peidio.

Rhennir yr asesiad yn ddwy ran:
a) Asesiad llecynnau agored
b) Amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl

4.1 A) Asesiad Llecynnau Agored (ALlA)

4.1.1 Mae'r ALlA yn adnabod yr holl ffurfiau o lecynnau agored a nodir yn NCT16. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mhapur Testun 14: Asesiad Llecynnau Agored. Mae ALlA wedi'i gynnal, ac mae'r mapiau i'w gweld yn Atodiad 2.

4.1.2 Mae'r canllawiau yn NCT 16 yn datgan y dylai'r Asesiad Llecynnau Agored roi sylw i bob ffurf o ddarpariaeth mannau agored. Mae Atodiad 2 NCT 16 yn darparu 'Teipoleg Mannau Agored' fel sail ddefnyddiol ar gyfer paratoi Asesiadau Llecynnau Agored a pholisïau mewn cynllun datblygu.[1] Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi ystyriaeth i'r teipoleg wrth asesu'r angen a'r ddarpariaeth bresennol, ac wrth bennu gofynion y dyfodol o ran llecynnau agored.

i. **parciau a gerddi cyhoeddus** – gan gynnwys parciau trefol a gerddi ffurfiol;
ii. **mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol** – gan gynnwys coetir, coedwigoedd trefol, prysg, glaswelltir, tir mynediad agored (e.e. mynydd-dir, rhostir, gweundir, twyndir, tir comin a gweirgloddiau), gwlypdir, tir gwastraff a thir diffaith agored a mannau creigiog (e.e. clogwyni, chwareli a chloddfeydd), a thir arfordirol;
iii. **coridorau gwyrdd** – gan gynnwys glannau afonydd a chamlesi, llwybrau troed, llwybrau beicio, llwybrau ceffyl, tir rheilffordd segur a hawliau tramwy; gall y rhain gysylltu gwahanol fannau o fewn a rhwng ardaloedd trefol. Gallant hefyd ffurfio rhan o rwydwaith sy'n cysylltu ardaloedd trefol, neu sy'n eu cysylltu â chefn gwlad o'u hamgylch;
iv. **cyfleusterau chwaraeon awyr agored** (gydag arwynebau naturiol neu artiffisial, mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat) – gan gynnwys cyrtiau tennis, lawntiau bowlio, lleiniau chwaraeon, cyrsiau golff, traciau athletau, meysydd chwarae ysgolion a sefydliadau eraill, a safleoedd chwaraeon awyr agored eraill. Y diffiniad cyfredol o lain chwaraeon yw maes chwarae sy'n fwy na 0.4 hectar o ran maint ac sydd wedi ei farcio ar gyfer gemau tîm yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
v. **mannau gwyrdd amwynder** (yn fwyaf cyffredin, ond nid yn ddieithriad, mewn ardaloedd tai) – gan gynnwys mannau hamdden anffurfiol (preifat neu'n agored i'r cyhoedd), lleiniau ar ymyl ffyrdd, mannau gwyrdd mewn ac o amgylch tai a safleoedd eraill e.e. ysbytai, ysgolion a cholegau, safleoedd diwydiannol a busnes, gerddi a thiroedd domestig, a meysydd pentref;
vi. **darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc** – gan gynnwys mannau chwarae, mannau ar gyfer chwarae ar olwynion, gan gynnwys sglefr-fyrddio, mannau cicio pêl yn yr awyr agored a mannau llai ffurfiol eraill (e.e. mannau 'loetran', llochesau i bobl yn eu harddegau);
vii. **rhandiroedd garddio, gerddi cymunedol, a ffermydd dinesig (trefol)** – diffinnir rhandir statudol fel rhandir nad yw ei arwynebedd yn fwy na 40 stang (1,000 metr sgwâr);

[1] Pan fo mwy nag un defnydd i lecynnau agored, caiff yr ardaloedd eu categoreiddio yn ôl prif ddefnydd yr ardal dan sylw.

viii. **mynwentydd a thir o amgylch eglwysi**;
ix. **ardaloedd hygyrch o gefn gwlad ar ymylon trefi** - sydd yn union ar ffin ardal drefol neu wedi eu cysylltu ag ardal drefol;
x. **mannau agored dinesig** – gan gynnwys sgwariau dinesig a sgwariau marchnad, promenadau a mannau eraill sydd ag arwyneb caled yn bennaf, a gynlluniwyd ar gyfer cerddwyr. Gall y mannau hyn gynnwys rhannau planedig a choed;
xi. **dŵr** - gan gynnwys arwynebeddau awyr agored o ddŵr llanwol a dŵr croyw, pyllau, afonydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd dŵr, dociau a harbyrau.

4.1.3 Mae'r ALlA wedi canolbwyntio'n bennaf ar y 28 anheddiad a nodir fel y canolfannau is-ranbarthol a'r canolfannau gwasanaeth trefol a restrir isod, gan ei bod yn fwy tebygol y bydd ceisiadau cynllunio am 10 neu fwy o dai yn cael eu cyflwyno yn yr aneddiadau hyn. Os bydd cais cynllunio am 10 neu fwy o dai yn cael ei gyflwyno mewn anheddiad nad yw ar y rhestr isod, gall yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gynnal asesiad desg i ganfod beth yw'r ddarpariaeth bresennol yn yr anheddiad hwnnw.

Canolfan Isranbarthol	
Gwynedd: Bangor	
Canolfan Gwasanaeth Drefol	
Gwynedd:	Ynys Môn:
Blaenau Ffestiniog Caernarfon Porthmadog Pwllheli	Amlwch Caergybi Llangefni
Canolfan Gwasanaeth Leol:	
Gwynedd:	Ynys Môn:
Abermaw Abersoch Bethesda Cricieth Llanberis Llanrug Nefyn Penrhyndeudraeth Penygroes Tywyn	Biwmares Benllech Bodedern Cemaes Gaerwen Llanfairpwll Porthaethwy Pentraeth Rhosneigr Y Fali
Pentref Gwasanaeth:	
Bethel Bontnewydd Botwnnog Chwilog Deiniolen Rachub Tremadog Y Fôr	Gwalchmai Llannerch-y-medd Niwbwrch

4.1.3 Pan dderbynnir cais, defnyddir system GIS y Cyngor i gyfrifo’r ddarpariaeth llecynnau agored o fewn y pellteroedd a nodir (gweler adran 3.3).

4.2 B) Amcangyfrif o'r Boblogaeth Breswyl

4.2.1 Y cam nesaf yw amcangyfrif y boblogaeth breswyl er mwyn cyfrifo beth yw targed yr anghenion hamdden. Defnyddir system GIS y Cyngor i gyfrifo'r boblogaeth o fewn y pellteroedd a nodir yn adran 3.3, drwy luosi nifer y pwyntiau cyfeiriadau preswyl gyda maint cyfartalog yr aelwydydd (Tabl PHP01 cyfrifiad 2011). Gweler yr enghreifftiau yn Atodiad 3.

5.0 Cam 3: Pennu Gofyniad Llecynnau Agored y Datblygiad Newydd Arfaethedig

Unwaith y canfyddir bod prinder llecynnau agored yn yr ardal leol, rhaid pennu beth yw gofyniad llecynnau agored y datblygiad newydd arfaethedig. Rhennir hyn yn ddwy ran:

a) Rhagdybiaeth Meddiannaeth;
b) Anghenion Hamdden.

Mae'r rhagdybiaethau deiliadaeth yn canfod nifer y bobl fesul math yr anheddiad, yn ei luosogi gyda'r safon meincnod FiT ar gyfer pob categori llecyn agored, sy'n arwain at bennu'r anghenion hamdden ar gyfer datblygiadau newydd arfaethedig.

5.1 A) Rhagdybiaethau Meddiannaeth

5.1.1 Gan fod safonau FiT yn seiliedig ar boblogaeth rhaid amcangyfrif lefel meddiannaeth gyfartalog y datblygiad newydd arfaethedig. Mae'r gyfradd feddiannaeth gyfartalog yn seiliedig ar dabl DC4405EW Cyfrifiad 2011, Deiliadaeth yn ôl maint yr aelwyd, a nifer yr ystafelloedd gwely.

	Cyfradd Feddiannaeth Gyfartalog	
Nifer ystafelloedd gwely	**Gwynedd**	**Ynys Môn**
1	1.31	1.26
2	1.72	1.74
3	2.35	2.36
4	2.82	2.41
5 neu fwy	3.18	3.04

5.1.2 Pan nad yw niferoedd a/neu maint ystafelloedd gwely yr anheddau yn hysbys (e.e. ceisiadau amlinellol), bydd y ddarpariaeth llecynnau agored yn cael ei neilltuo drwy gyfrwng amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y mater yn cael ei ddatrys wrth gyflwyno'r cais manwl.

5.2 B) Anghenion Hamdden

5.2.1 Er mwyn cyfrifo anghenion hamdden datblygiad newydd arfaethedig, rhaid gwneud y cyfrifiad a ganlyn:

Rhagdybiaeth Meddiannaeth (fesul maint ystafell wely) **x** **Angen fesul Uned (m2)**		
Chwaraeon Awyr Agored $16m^2$	Llecynnau Chwarae Anffurfiol i Blant $5.5m^2$	Llecynnau Chwarae â Chyfarpar i Blant $2.5m^2$
x **Nifer yr Unedau**		

Enghraifft:

Datblygiad arfaethedig o 50 tŷ yng Ngwynedd (10 tŷ 2 ystafell wely, 25 tŷ tair ystafell wely, 15 tŷ pedair ystafell wely).

i) Chwaraeon Awyr Agored

A. Nifer Ystafelloedd Gwely	B. Rhagdybiaeth Meddiannaeth	C. Angen fesul Uned (m^2) (B x 16m^2)	CH. Nifer yr Unedau	Cyfanswm Angen (m^2) (C x CH)
1	1.31	20.96	0	0
2	1.72	27.52	10	275.20
3	2.35	37.60	25	940.00
4	2.82	45.12	15	676.80
5 neu fwy	3.18	50.88	0	0
Cyfanswm	**-**	**-**	**50**	**1892m^2**

ii) Llecynnau Chwarae Anffurfiol i Blant

A. Nifer Ystafelloedd Gwely	B. Rhagdybiaeth Meddiannaeth	C. Angen fesul Uned (m^2) (B x 5.5m^2)	CH. Nifer yr Unedau	Cyfanswm Angen (m^2) (C x CH)
1	1.31	7.21	0	0
2	1.72	9.46	10	72.10
3	2.35	12.93	25	323.25
4	2.82	15.51	15	232.65
5 neu fwy	3.18	17.49	0	0
Cyfanswm	**-**	**-**	**50**	**628m^2**

iii) Llecynnau Chwarae â Chyfarpar i Blant

A. Nifer yr Ystafelloedd Gwely	B. Rhagdybiaeth Meddiannaeth	C. Angen fesul Uned (m^2) (B x 2.5m^2)	CH. Nifer yr Unedau	Cyfanswm Angen (m^2) (C x CH)
1	1.31	3.28	0	0
2	1.72	4.30	10	43.00
3	2.35	5.88	25	147.00
4	2.82	7.05	15	105.75
5 neu fwy	3.18	7.95	0	0
Cyfanswm	**-**	**-**	**50**	**295.75m^2**

Felly, ar gyfer yr enghraifft uchod, amcangyfrif y ddarpariaeth llecynnau agored newydd ar gyfer y datblygiad arfaethedig yw:

i. Chwaraeon Awyr Agored = 1892m^2
ii. Llecynnau Chwarae Anffurfiol i Blant = 628m^2
iii. Llecynnau Chwarae â Chyfarpar i Blant = 295.m^2

7.0 Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
☎ 01286 685003
💻 polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd.aspx

Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd,
✉ Swyddfeydd y Cyngor
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA
☎ 01766 771000
💻 cynllunio@gwynedd.llyw.cymru

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Cynllunio/Cynllunio.aspx

Gwasanaeth Cynllunio Ynys Môn
✉ Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
☎ 01286 752428
💻 cynllunio@ynysmon.gov.uk

http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/rheoli-cynllunio?redirect=false

- Am ragor o wybodaeth ynglŷn a safon, dyluniad, iechyd a diogelwch llecynnau agored

  Fields in Trust Cymru
  http://www.fieldsintrust.org/wales

  Royal Society for the Prevention of Accidents:
  https://www.rospa.com/play-safety/advice/design/

Atodiad 1 – Dadansoddiad o’r Costau

Mae’r costau a gyfrifwyd yn seiliedig ar (i) safonau FiT (sy'n nodi lefel y ddarpariaeth fesul 1,000 o'r boblogaeth), a (ii) y costau sylfaenol tebygol ar gyfer darparu llecynnau agored. Petai'r gost o ddarparu'r categorïau amrywiol o lecynnau agored yn newid dros amser, defnyddir y fframwaith costau mwyaf diweddar.

	Cost fesul metr sgwâr		
	Darparu	Cynnal-a-chadw	Cyfanswm
Meysydd chwarae	£11.69	£5.23	**£16.92**
Chwaraeon awyr agored	£11.69	£5.23	**£16.92**
Llecynnau chwarae i blant (â chyfarpar)	£37.99	£79.30	**£117.29**
Llecynnau chwarae i blant (anffurfiol)	£11.40	£5.57	**£16.97**
Mwynderau'r gymdogaeth	£11.69	£5.23	**£16.92**

* Fel rheol bydd arian sydd heb ei wario cyn pen wyth mlynedd o ddyddiad y taliad neu bum mlynedd o gwblhau'r datblygiad, p’un bynnag yw'r diwethaf, yn cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd.

Atodiad 2 – Mapiau Asesiad Llecynnau Agored

Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

ABERMAW



© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

ABERSOCH



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

AMLWCH



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

BANGOR



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

BENLLECH



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

BETHEL



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
BETHESDA



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

BIWMARES / BEAUMARES



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

BLAENAU FFESTINIOG



Allwedd / Key

- Llecyn Hamdden Ffurfiol
  Formal Recreation Space
- Llecyn Hamdden Anffurfiol
  Informal Recreation Space
- Llecyn Chwarae gyda Chyfarpar
  Equipped Play Area
- Llecyn Mwynderol
  Amenity Space
- Tir Addysg
  Education Land

G/N

1:7,000

© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
BODEDERN



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

BONTNEWYDD



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

BOTWNNOG



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
(Drafft / Draft)

CAERGYBI / HOLYHEAD



© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

CAERNARFON



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

CEMAES



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
CRICCIETH



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
CHWILOG



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

DEINIOLEN



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
GAERWEN



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

GWALCHMAI



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

LLANGEFNI



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

LLANBERIS



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

LLANNERCH-Y-MEDD



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

LLANFAIRPWLL



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

LLANRUG



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
NEFYN



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

NIWBWRCH / NEWBOROUGH



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

PENRHYNDEUDRAETH



Allwedd / Key

- Llecyn Hamdden Ffurfiol
  Formal Recreation Space
- Llecyn Hamdden Anffurfiol
  Informal Recreation Space
- Llecyn Chwarae gyda Chyfarpar
  Equipped Play Area
- Llecyn Mwynderol
  Amenity Space
- Tir Addysg
  Education Land

G/N

1:5,000

© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
PENTRAETH



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

PENYGROES



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

PORTHAETHWY / MENAI BRIDGE



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

PORTHMADOG



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
PWLLHELI



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

RACHUB



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
RHOSNEIGR



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

TREMADOG



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment
TYWYN



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

Y FALI / VALLEY



Asesiad Llecynnau Agored / Open Space Assessment

Y FFÔR



Atodiad 3 – Amcangyfrif o'r boblogaeth